CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: safonau lles anifeiliaid fferm (SMR 13) (2025)

Crynodeb o'r rheolau ar beidio ag achosi poen, dioddefaint neu anaf.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#159473)

**Prif ofynion** (https://www.llyw.cymru#159475)

**Archwilio caeau** (https://www.llyw.cymru#159477)

**Arfer da** (https://www.llyw.cymru#159479)

**Gwybodaeth bellach** (https://www.llyw.cymru#159481)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw profi i'r cwsmer fod safonau lles uchel yn cael eu cynnal a bod hynny yn ei dro yn gwella diogelwch ac ansawdd bwyd. Mae'r gofynion yn diogelu lles anifeiliaid fferm trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Maen nhw'n ymdrin â phob anifail sy'n cael ei ffermio.

Rhaid i berchnogion a cheidwaid anifeiliaid fferm ofalu am les eu hanifeiliaid a gofalu nad ydyn nhw'n dioddef nac yn cael poen neu anaf diangen.

# Prif ofynion

Rhaid cadw'r safonau canlynol:

- staff y fferm: dylai fod digon o staff i ofalu am yr anifeiliaid a bydd ganddynt y medrau angenrheidiol i wneud y gwaith
- archwilio stoc: rhaid i bob anifail sy'n cael ei gadw mewn system lle mae ei les yn dibynnu ar gael sylw'n aml, gael ei archwilio o leiaf unwaith bob dydd. Rhaid i anifeiliaid sy'n sâl neu sydd wedi cael anaf gael eu trin ar unwaith, a'u hynysu mewn adeilad addas os oes angen. Holwch filfeddyg os oes angen a gweithredu ar ei gyngor
- cofnodion: rhaid i berchennog neu geidwad yr anifail gadw cofnod o bob moddion a roddir am o leiaf dair blynedd o ddyddiad rhoi'r driniaeth a chadw cofnodion marwolaethau am y tair blynedd cynt
- rhyddid i Symud: Rhaid bod gan bob anifail ddigon o le i symud heb ddioddef na chael ei anafu'n ddiangen, hyd yn oed os yw wedi'i glymu, ei gadwyno neu ei gaethiwo
- adeiladau: Rhaid defnyddio deunydd adeiladu sy'n hawdd ei lanhau a'i ddiheintio. Gofalwch am yr adeilad fel nad oes ymylon miniog na darnau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

ymwthiol allai anafu'r anifail. Dylech gadw cylchrediad yr aer a lefelau'r llwch, y tymheredd a'r lleithder o fewn terfynau derbyniol. Peidiwch â chadw anifeiliaid mewn tywyllwch parhaol na chwaith mewn goleuni artiffisial di-dor
- anifeiliaid sydd ddim yn cael eu cadw mewn adeilad: gofalwch lle bo angen a lle bo'n bosibl, fod ganddyn nhw gysgod rhag y tywydd, anifeiliaid ysglyfaethus a pheryglon i'w hiechyd. Bydd gan yr anifeiliaid bob amser le sych i orwedd a chysgod bob amser rhag tywydd cas ac anifeiliaid ysglyfaethus
- offer awtomatig neu fecanyddol: Rhaid archwilio offer sy'n hanfodol i iechyd a lles eich anifeiliaid o leiaf unwaith bob dydd. Os ydych yn defnyddio system awyru artiffisial, rhaid wrth system wrth gefn i warantu bod yr aer yn gallu cael ei adnewyddu
- bwyd, dŵr a sylweddau eraill: rhaid rhoi deiet faethlon sy'n addas i oed a rhywogaeth eich anifeiliaid, a sicrhau eu bod yn cael digon yn ddigon aml. Peidiwch â rhoi unrhyw sylwedd i'ch anifeiliaid sy'n niweidiol i'w hiechyd neu eu lles. Hefyd rhaid defnyddio offer bwydo a dyfrio sy'n diogelu bwyd a diod rhag cael ei lygru
- trefniadau bridio: peidiwch â dilyn trefniadau bridio naturiol nag artiffisial fyddai'n gwneud neu'n debygol o wneud i'r anifail ddioddef neu gael anaf, oni bai bod eu heffaith arno'n fyr ac yn fach, heb achosi anaf
- ni ddylid cynnal unrhyw weithred anffurfio (e.e. digornio lloi, ysbaddu, torri cynffonnau) oni bai bod y weithred wedi'i rhestru fel 'gweithred a ganiateir' a'i bod yn cael ei chynnal gan filfeddyg, person profiadol neu berson sydd wedi'i hyfforddi'n briodol

## Archwilio caeau

- i edrych ar y gofal mae'r anifeiliaid yn ei gael, ar eu hadeiladau ac ar y cofnodion gan ofalu bod ganddyn nhw le sych i orwedd
- i ofalu bod gan y perchennog (sy'n cynnwys unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifail fferm) wybodaeth am y **Codau Ymarfer** (https://www.llyw.cymru/lles-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

anifeiliaid) a chopi ohonynt er lles yr anifeiliaid maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw
- i ofalu bod y cofnodion meddygol yn gyfredol a bod y moddion sydd yn y cwpwrdd meddygol wedi'u cofnodi
- i ofalu bod gan bob meddyginiaeth drwydded gan y Deyrnas Unedig
- i ofalu nad yw'r cynnyrch yn rhy hen
- i brofi'r larymau a'r dyfeisiau wrth gefn os oes offer awtomatig yn cael ei ddefnyddio

## Arfer da

- bod cynllun iechyd a lles milfeddygol a, ble y bo angen, gynghorwyr technegol eraill, ar gael ac yn cael ei weithredu.  Adolygu a diweddaru y cynllun yn rheolaidd
- sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar gael ar gyfer digwyddiadau allai gael effaith ar les anifeiliaid, megis tywydd eithafol neu brinder dŵr

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2025)** (https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cysylltiadau-defnyddiol-2025)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-anifeiliaid-fferm-smr-13-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).